# Amcangyfrif Diwygiedig

# 2016-17

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Amcangyfrif Diwygiedig 2016-17

## 1 Y Cefndir a'r Cyd-destun

1.1 Fel Comisiynydd, mae'n ofynnol i mi gyflwyno cyllideb flynyddol (yr Amcangyfrif) i Weinidogion Cymru o dan baragraff 9(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Mae'n amlinellu'r gwariant amcangyfrifedig ar sail adnoddau a'r cyllid arian parod net y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru er mwyn i mi gyflawni swyddogaethau statudol Comisiynydd.

1.2 Yn unol â'r gofyniad hwn, cyflwynais amcangyfrif o incwm a gwariant ar 8fed Hydref, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 yn ogystal â darparu amcangyfrifon dangosol ar gyfer 2017-18 a 2018-19.

1.3 Cefais lythyr dyddiedig 31ain Rhagfyr 2015 gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu, er gwaethaf y ffaith bod Gweinidogion Cymru yn gefnogol i'm gwaith a bod cyllidebau wedi cael eu diogelu yn y gorffennol, nid yw wedi bod yn bosibl gwneud hynny ar gyfer y cyfnod ariannol 2016-17. Yng nghanlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 8fed Rhagfyr, cadarnhawyd y byddai gostyngiad o 10% yn fy nghyllideb ar gyfer 2016-17 ac y bydd yn gostwng i £1,543,000.

1.4 Yng ngoleuni hyn, gofynnwyd i mi ailgyflwyno'r amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer 2016-17 ar sail y gyllideb ddiwygiedig o £1,543,000. Yna bydd Gweinidogion yn gosod yr amcangyfrif hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â gofynion paragraff 9(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

## 2 Dull Gweithredu

### 2.1 Costau Staffio

2.1.1 O ystyried maint y toriad yn fy nghyllideb a'r ffaith bod tua 75% o'm costau'n ymwneud â staffio, cymerais gamau ar unwaith i adolygu fy strwythur sefydliadol yn feirniadol ac ailgydbwyso'r adnoddau yn erbyn fy mlaenoriaethau.

2.1.2 Mae pum prif agwedd i'r newidiadau rwyf wedi'u gwneud:

i. Cyfuno dyletswyddau penodol, gan sicrhau bod swyddogaethau hanfodol yn cael eu cadw. Er y bydd y swyddi yn aros yr un fath yn eu hanfod, bydd hyn yn arwain at ychwanegiadau swyddogaethol at y rhan fwyaf o rolau.

ii. Sicrhau bod ffocws fy ngwaith yn cyd-fynd yn well â dylanwad, polisi ac arferion da yng Nghymru drwy ddwyn ynghyd y Tîm Diogelu a Chraffu a'r Tîm Lles a Grymuso o dan un Cyfarwyddwr. Bydd hyn yn galluogi aelodau o'r staff o fewn y tîm cyfunol i weithio'n agosach â'i gilydd gan sicrhau dull cydgysylltiedig o ddarparu cymorth unigol a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer ar draws Cymru.

iii. Cadw rhywfaint o gymesuredd yn fy ngwaith ar draws y pum blaenoriaeth a pharhau i adeiladu ar fy ngwaith ymgysylltu â phobl hŷn a'm gwaith mewn perthynas â Heneiddio'n Dda yng Nghymru, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac Eiriolaeth.

iv. Sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithlon o ansawdd da yn parhau a bod cefnogaeth weithredol briodol i sicrhau bod fy nylestwyddau llywodraethu ac ariannol statudol yn cael eu cyflawni.

v. Sicrhau bod polisïau cyflog a gwobrwyo yn fy ngalluogi i recriwtio a chadw staff sy'n meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen a lleihau trothwyon uchaf y ddau fand cyflog uchaf.

2.1.3 Effaith net y newidiadau hyn yw gostyngiad o saith o swyddi staff yn gyffredinol.

**2.2 Dull Gweithredu - Cyllidebau Nad ydynt yn Gysylltiedig â Chyflogau**

2.2.1 Rwyf wedi ailedrych yn fanwl ar fy holl gyllidebau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau ond, gan fy mod eisoes wedi adolygu'r meysydd hyn yn rhagweithiol ac yn barhaus, nid wyf wedi llwyddo i wneud arbedion sylweddol. Rwyf eisoes wedi gwneud nifer o newidiadau, dros y tair blynedd diwethaf i'r ffordd yr wyf yn defnyddio'r cyllidebau hyn ac, er gwaethaf fy adolygiad parhaus, rwyf wedi darganfod mai prin iawn yw'r cyfle i wneud rhagor o arbedion yn y maes hwn. Serch hynny, rwyf wedi gweithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i nodi lle y gellid

gwneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

2.2.2 Rwyf eisoes wedi ymrwymo i gydweithio drwy ddefnyddio’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a, lle bo'n briodol, yn parhau i ymchwilio i unrhyw ffyrdd o sicrhau gwerth am arian ym mhob agwedd ar gyflawni fy musnes.

2.2.3 Yr wyf, yn hanesyddol ac er darbodusrwydd, wedi neilltuo cyllideb wrth gefn i gynorthwyo gydag unrhyw sefyllfaoedd gweithredol annisgwyl ac i dalu costau unrhyw gymorth, adolygiadau ac archwiliadau o dan fy nyletswyddau statudol nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae hyn bellach wedi'i gostwng i £15,000 sy'n cyfyngu'n sylweddol ar fy ngallu i gymryd unrhyw gamau heb eu cynllunio a fydd yn golygu y bydd yn rhaid cynnal asesiad hollbwysig o'r ymrwymiadau sydd yn fy rhaglen waith neu gais am adnoddau ychwanegol.

2.2.4 Credaf fod fy nghronfeydd wrth gefn nawr ar y lefel isaf bosibl heb danseilio a chyfaddawdu egwyddorion rheolaeth ariannol gadarn sy'n ofynnol fel rhan o'm dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu.

## 3 Casgliad

3.1 Er fy mod yn cydnabod y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, ni ddisgwyliwyd toriadau mor ddifrifol, ac nid ydynt yn gyson â'r cyllid ar gyfer y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ehangach.

3.2 Yn hanesyddol rwyf wedi gweithio ar sail cynllun ariannol 3 blynedd dangosol gan fy ngalluogi i gynnwys yn fy rhaglen waith rywfaint o flaengynllunio a hyblygrwydd. Mae absenoldeb cyllid dangosol ar gyfer y dyfodol yn y llythyr cyllido eleni yn ei gwneud yn anodd iawn cynllunio mewn modd cynaliadwy.

3.3 Fy mwriad yw cyhoeddi cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 yn fuan ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016. Bydd hwn yn amlinellu fy rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys sut y bwriadaf gyflawni fy swyddogaethau statudol.

# Atodiad A Amcangyfrif Blynyddol 2016-17

Mae'n ofynnol i mi gyflwyno Amcangyfrif i Weinidogion Cymru o dan baragraff 9(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'n amlinellu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni fy swyddogaethau statudol a'r cyllid arian parod net cysylltiedig yr amcangyfrifir y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wedyn osod yr Amcangyfrif, gydag addasiadau neu hebddynt, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â pharagraff 9(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru).

Nodir Amcangyfrif 2016-17 ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn isod:

| **Disgrifiad** | **Amcangyfrif 2016-17 £0** |
|---|---:|
| Costau cyflogaeth | 1,068,198 |
| Llety | 135,257 |
| Treuliau swyddfa | 29,500 |
| Treuliau TG | 57,954 |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 61,800 |
| Costau rhedeg eraill | 84,846 |
| Rhaglen | 83,000 |
| Heneiddio'n Dda | 33,230 |
| Cronfa wrth gefn | 15,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **1,568,785** |
| Llai: | |
| Defnyddio balans arian parod a ddygwyd ymlaen | 15,376 |
| Symudiad heb fod yn arian parod | 2,179 |
| Incwm anghylchol ar gyfer Heneiddio'n Dda yng Nghymru | 8,230 |
| **Gofyniad arian parod net** | **1,543,000** |